

OWEN, WILLIAM ('William Owen, Prysgol'; 1813 - 1893), cerddor

Enw: William Owen

Dyddiad geni: 1813

Dyddiad marw: 1893

Rhiant: Ellen Owen

Rhiant: William Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cerddor

Cartref: Prysgol

Maes gweithgaredd: Crefydd; Cerddoriaeth

Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 12? Rhagfyr 1813 mewn tŷ (lle y saif capel y M.C. heddiw) yn Lôn-popty, Bangor, mab William ac Ellen Owen. Chwarelwr oedd y tad yn chwarel Cae Braichycafn, Bethesda. Pan oedd tua blwydd oed, symudodd ei rieni i'r Tŷ Hen (bellach dan domen y chwarel) yn ardal Bethesda, ac yn 10 oed dechreuodd y mab weithio yn y chwarel. Symudasant wedyn (ac yntau'n 16) i Cae'r sguor-wen - tyddyn a ddaeth hefyd i gael ei elw'n ' Cilmelyn '.

Dysgodd gerddoriaeth yn nosbarth Robert Williams ('Cae Aseth'), a gynhelid yn y Carneddi, a chan [William Roberts](#), Tyn-y-maes, awdur y dôn ' Andalusia.' Cyfansoddodd ei dôn gyntaf yn 18 oed, ac ymddangosodd yn *Y Drysorfa*, Mehefin 1841. Symudodd y teulu o Tŷ Hen yn ôl i Gilmelyn, Bangor, a ffurfiodd William Owen gôr dirwestol a ganodd ' Cwmp Babilon ' o waith yr arweinydd yng nghymanfa ddirwestol Caernarfon, 1849. Yn 1852 gwnaeth ei gyfeillion ym Methesda gyngerdd er ei gynorthwyo i ddwyn allan ei gyfansoddiadau, a'r un flwyddyn dug allan *Y Perl Cerddorol yn cynnwys tonau ac anthemau, cysegredig a moesol*, a gwerthwyd 3,000. Yn 1886, gwerthwyd 4,000 o argraffiadau sol-ffa. Cyfansoddodd lawer o ddarnau dirwestol, a chanwyd rhai ohonynt yng ngyl gerddorol dirwestwyr Eryri yng nghastell Caernarfon. Bu ei anthem, ' Ffynnon Ddisglair,' a'r tonau ' Alma ' a ' Deemster,' yn boblogaidd, ond fe gofir am William Owen fel awdur y dôn ' Bryn Calfaria,' sydd yn aros yn boblogaidd, ac a genir yn Lloegr yn y cywair mwyaf.

Wedi iddo briodi merch y Prysgol, symudodd yno i fyw ar ddymuniad ei dad-yng-nghyfraith, a bu'n flaenor ac arweinydd y canu yng nghapel Methodistiaid Calfinaidd Caeathro tra bu fyw. Bu farw 20 Gorffennaf 1893, a chladdwyd ef ym mynwent capel Caeathro.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Medi 1893

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)

Y Clorianydd, 24 Mawrth 1954

Llythyr gan ei nai, Griffith O. Jones yn *Y Clorianydd*, 24 Mawrth 1954

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [William Owen, Pryscol, Papers](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 12052C: 'Bryn Calfaria'](#)

Wikidata: [Q28361196](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

